Dylunio ar gyfer dysgwyr amrywiol

UNIVERSITY OF HULL

Cofiwch...

Cofiwch mai dim ond ar ddechrau brawddeg y dylid rhoi priflythyren, a chofiwch ddefnyddio ffont darllenadwy mewn maint addas bob amser - o leiaf 12pt ar gyfer print ac 1 em ar gyfer y we.

Cofiwch alinio'r testun i'r chwith bob amser a rhoi bwlch o 1.5 rhwng bob llinell.

Cofiwch dorri gwybodaeth yn rhannau llai bob amser, a defnyddio penawdau ystyrlon, is-benawdau a rhestrau bwled un lefel.

Cofiwch ddefnyddio arddull pennawd, tagiau neu nodweddion fformatio eraill bob amser wrth greu penawdau ac is-benawdau.

Cofiwch wneud gwybodaeth bwysig yn glir ac yn hawdd dod o hyd iddi bob amser.

Cofiwch ysgrifennu hyperddolenni disgrifiadol ac ystyrlon bob amser a defnyddiwch adnodd byrhau URL os oes angen.

Cysylltwch â ni

Cofiwch ddefnyddio cyfuniad o liw, siapiau a thestun i gyfleu ystyr bob amser.

Start

Cofiwch roi digon o gyferbyniad lliw rhwng y cefndir a'r elfennau yn y blaendir.

Cofiwch ddarparu mwy nag un dull o gynrychioli rhywbeth bob amser. Ychwanegwch destun amgen (alt) ystyrlon i bob delwedd, diagram a thabl.

Cofiwch gynnwys trawsgrifiadau neu gapsiynau ar gyfer sain a fideo bob amser. Rhowch ddisgrifiadau sain o fideo.

Cofiwch rhoi rheolaeth dros y cyfryngau a'r llywio i'r defnyddiwr bob amser. Sicrhewch fod modd llywio trwy'r holl gynnwys trwy ddefnyddio bysellfwrdd.

Cofiwch ddefnyddio gwirydd hygyrchedd bob amser lle bo hynny'n bosib.

Peidiwch...

Peidiwch â chreu testun sy'n anodd ei ddarllen. Rhaid osgoi defnyddio dim ond priflythrennau, ffont mewn maint bach a ffontiau rhedol (cursive) na ffontiau sgript.

Peidiwch ag alinio'r testun i'r canol neu i'r dde a rhaid osgoi unioni llawn.

Peidiwch â chreu cynllun darllen cymhleth ac anniben. Dylech osgoi defnyddio dewislenni aml-haenog a rhestrau cymhleth.

Peidiwch â fformatio testun i gyfleu penawdau, ystyr neu strwythur trwy ddefnyddio'r botymau fformatio ar frig y sgrin, defnyddiwch ar arddulliau integredig yn lle hynny.

Peidiwch â defnyddio dim ond prif lythrennau, na thanlinellu na ffont italig wrth greu pennawd nac i bwysleisio ffaith.

PEIDIWCH Â GWNEUD HYN

Peidiwch â defnyddio hyperddolenni nad ydynt yn cynnwys gwybodaeth a pheidiwch byth â defnyddio 'cliciwch yma'.

Cliciwch Yma

Peidiwch â defnyddio lliw neu siâp fel yr unig ffordd o gyfleu ystyr.

Peidiwch â chael cyferbyniadau gwan rhwng lliwiau a gosod testun dros ddelweddau neu gefndiroedd patrymog.

Peidiwch â defnyddio un dull mynegiant yn unig, yn enwedig wrth ddefnyddio cyfryngau neu egluro syniadau heriol. Dylid osgoi testun amgen (alt) sy'n aneglur neu or-gymhleth.

Peidiwch â darparu sain a fideo heb gynrychiolaeth amgen (alt).

Peidiwch â chaniatáu i gynnwys sain neu fideo chwarae'n awtomatig a gorfodi rheolaeth trwy ddefnyddio llygoden neu gyffwrdd y sgrin yn unig.

Peidiwch â chymryd yn ganiataol bod eich cynnwys yn hygyrch heb i chi ei brofi.

Created by Dr Lee Fallin, Dr Ellie Davison, Gemma Spencer, Tom Tomlinson, Sue Watling, Kate Wright
with input from the HigherEd community. Based on the Accessibility Poster Series from the Home Office Digital (CC-BY-NC-SA)

Poster v4.0

CC BY NC SA